# Sut i wneud Surop Aeron Ysgaw gydag aeron ysgaw ffres

Byddwch angen:



Aeron ysgaw aeddfed
Siwgr
Clofs
Dŵr
Jwg mesur
Clorian
Sosban
Llwy bren
Rhidyll
Jariau neu boteli wedi'u sterileiddio
Cadach mwslin neu liain sychu llestri

**Dull:**

**Cam 1.**

Casglwch y ffrwyth ar ddiwrnod sych. Golchwch yn dda a hidlwch yn drylwyr. Tynnwch y ffrwythau yn ddarnau o'r coesau (gyda fforc) a'u rhoi mewn padell, gan ychwanegu digon o ddŵr i'w gorchuddio o fymryn.

**Cam 2.**

Mudferwch am 30 munud nes bod yr aeron yn feddal iawn.
Hidlwch drwy fag jeli neu gadach mwslin a mesur y sudd. Caniatewch 450g o siwgr a 10 o glofs ar gyfer pob 600ml o sudd.

**Cam 3.**

Cynheswch y sudd yn ysgafn, gan ei gymysgu i mewn i'r siwgr nes ei fod wedi ymdoddi. Berwch am 10 munud ac yna gadewch iddo oeri.

**Cam 4.**

Gall y surop gael ei rewi mewn blychau bychan (rydw i'n defnyddio hen boteli llaeth wedi'u golchi'n dda) neu gallant gael eu pacio i boteli bychain diod ysgafn, â thopiau sgriw, sydd wedi'u sterileiddio.